

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Ffordd Osgoi'r Drenewydd,
Powys) (Gwahardd Cerbydau a
Beicwyr Dros Dro) 2019

The A483 Trunk Road (Newtown
Bypass, Powys) (Temporary
Prohibition of Vehicles and
Cyclists) Order 2019

Gwnaed 4 Chwefror 2019

Made 4 February 2019

Yn dod i rym 11 Chwefror 2019

Coming into force 11 February 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, cychwyn a dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 11 Chwefror 2019.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Newtown Bypass, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists) Order 2019 and it comes into force on 11 February 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, ac i gael mynediad i eiddo priodol;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services, in connection with the works giving rise to this Order and to access appropriate properties;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 11 Chwefror 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol; ac

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the length of the A483 Swansea to Manchester Trunk Road known as Newtown Bypass that extends from the eastern tip of the eastern junction serving Dyffryn

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion o’r enw Ffordd Osgoi’r Drenewydd, sy’n ymestyn o ben dwyreiniol y gyffordd ddwyreiniol sy’n gwasanaethu Ystad Ddiwydiannol Dyffryn hyd at ei chyffordd â’r gylchfan newydd yn Pool Road, y Drenewydd, Powys.

Gwaharddiadau

3.Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

4.Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwyso

5.Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Chwefror 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Industrial Estate to its junction with the new roundabout at Pool Road, Newtown, Powys;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 09:00 hours on 11 February 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3.No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

4.No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

Application

5.The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6.The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 4 February 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(FFORDD OSGOI'R DRENEWYDD, POWYS)
(GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS
DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Ffordd Osgoi'r Drenwydd, Powys.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd a phob beiciwr, ac eithrio'r cerbydau hynny a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir ar gyfer y gwaith a cherbydau'r rheini y mae arnynt angen mynediad i eiddo ar hyd y darn o'r ffordd a fydd ar gau, rhag mynd ar y darn o'r A483 Ffordd Osgoi'r Drenwydd sy'n ymestyn o ben dwyreiniol y gyffordd ddwyreiniol sy'n gwasanaethu Ystad Ddiwydiannol Dyffryn hyd at ei chyffordd â'r gylchfan newydd yn Pool Road, y Drenwydd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau tua'r gogledd fydd ar hyd yr A483 Pool Road tua'r gorllewin, yr A489 Kerry Road tua'r de a thua'r dwyrain i Ffordd Osgoi'r Drenwydd wrth gylchfan Kerry Road i gylchfan Pool Road Ffordd Osgoi'r Drenwydd: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn dod i rym am 09:00 o'r gloch ar 11 Chwefror 2019 ac yn weithredol tan 15:30 o'r gloch ar 15 Chwefror 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Codir arwyddion ymlaen llaw i roi gwybod y bydd y ffordd ar gau.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (NEWTOWN
BYPASS, POWYS) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES AND
CYCLISTS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Newtown Bypass, Powys.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit all vehicles and cyclists, other than those vehicles being used by the emergency services, for the works and needing to access appropriate properties along the length of the closure, from proceeding on the length of the A483 Newtown Bypass that extends from the eastern tip of the eastern junction serving Dyffryn Industrial Estate to its junction with the new roundabout at Pool Road, Newtown.

The alternative route for northbound vehicles will be via the westbound A483 Pool Road, southbound A489 Kerry Road and eastbound onto Newtown Bypass at Kerry Road roundabout to Newtown Bypass Pool Road roundabout: vice versa for southbound vehicles.

It is expected that the prohibition will come into force at 09:00 hours on 11 February 2019 and operate until 15:30 hours on 15 February 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Signs advising of the closure will be erected in advance.

Although the proposed Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government